

Mr Kevin Shields
Mental Health Care UK
Alexander House
Highfield Park
Llandyrnog
Sir Ddinbych
LL16 4LU

Llinell uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: John.powell@wales.gsi.gov.uk

2 Ebrill 2014

Annwyl Mr Shields,

Parthed: Yr ymweliad ag Ysbyty Dewi Sant ar 12 ac 13 Mawrth 2014

Fel y gwyddoch, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd ag Ysbyty Annibynnol Dewi Sant ar 12 ac 13 Mawrth 2014. Tynnodd ein hymweliad sylw at agweddau y mae'n werth eu nodi ac sy'n cynnwys y canlynol:

- Tystiolaeth o waith tîm ac agwedd gadarnhaol gan y tîm amlddisgyblaethol.
- Ffurflenni cynhwysfawr ar gyfer absenoldeb dan adran 17, gyda chyfarwyddiadau da gan y Clinigwr Cyfrifol.
- Y berthynas dda a welwyd rhwng y staff a'r cleifion.
- Yr ystod eang o weithgareddau a oedd ar gael yng Nghoed Bach.
- Yr ystod dda iawn o fwyd, y bwydlenni dychmygus a'r profiad cadarnhaol a gynigid adeg prydau bwyd.
- Y defnydd da a wneir o ddeunydd hawdd ei ddarllen ar gyfer cleifion yng nghyswllt y Ddeddf Iechyd Meddwl, bwydlenni ac ystod o ddogfennau eraill.
- Y pecyn hyfforddi cynhwysfawr ar gyfer gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl.

- Y ffaith bod morâl y staff wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf.

Tynnodd ein hymweliad sylw at nifer o broblemau hefyd. Rhoesom drosolwg ar lafar o'n pryderon i'ch rheolwr cofrestredig ar ddiwedd ein hymweliad ar 13 Mawrth 2014. Mae crynodeb o'r pryderon hynny, sy'n cynnwys achosion o fynd yn groes i'r rheoliadau, wedi'i nodi isod:

Y mater a oedd yn peri pryder	Rheoliad
1. Gwelwyd y problemau canlynol wrth adolygu dogfennau'r cynlluniau gofal: a. Yng nghyswllt claf A, ni welwyd unrhyw dystiolaeth bod cynlluniau gofal/asesiadau risg wedi'u gwerthuso ers iddynt gael eu llunio ym mis Awst 2013. b. Roedd dos uchel o Priadel wedi'i ragnodi ar gyfer claf A, a oedd yn golygu bod angen cynnal profion gwaed rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gynllun gofal wedi'i lunio i fynd i'r afael â hynny. c. Nid oedd unrhyw gynllun gofal ar gael ar gyfer rhyddhau claf A o'r ysbyty. - ch. Nid oedd y cynlluniau gofal a'r asesiadau risg ar gyfer claf B wedi'u gwerthuso'n unol â'r amserlenni a nodwyd. d. Nid oedd y cynllun gofal ar gyfer claf B ynglŷn â'i friw pwyso yn nodi bod angen mesur a disgrifio'r clwyf. Yr unig beth yr oedd y cynllun gofal yn ei nodi oedd bod angen monitro'r briw pwyso bob dydd. - dd. Nid oedd asesiad risg ynglŷn â phoen ar gael ar gyfer claf B. Roedd parasetamol sylfaenol wedi'i ragnodi ar gyfer y claf, ond nid oedd y claf wedi cael y feddyginiaeth honno hyd yn oed. e. Roedd gwaith arsylwi un i un wedi'i nodi ar gyfer claf C, ond dim ond gwaith arsylwi bob awr oedd wedi'i gofnodi ar y siartiau. Rhaid mynd i'r afael â phob un o'r meysydd a nodir uchod.	Rheoliad 15 (1) (a) (b) ac (c)
2. Nodwyd y sylwadau canlynol wrth adolygu'r ystafell ar gyfer triniaeth/ystafell y clinig: a. Roedd cyffuriau y gellid eu camddefnyddio'n cael eu cofnodi'n amhriodol fel cyffuriau a reolir. b. Roedd y staff wedi llofnodi i ddangos bod cyffuriau wedi'u rhoi pan oedd yn amlwg nad oedd hynny wedi digwydd.	Rheoliad 15 (5) (a) a (b)

c. Nid oedd ffurflen CO3, adran 4.2.1 yn glir ar gyfer claf D. ch. Roedd tabledi Zuclopenthixol (25mg) wedi'u rhagnodi ar gyfer claf E. Roedd y cyfarwyddiadau ar y cynhwysydd yn nodi y dylai'r claf gael tair tabled ddwywaith y dydd, ond dylai'r cyfarwyddiadau nodi bod angen i'r claf gael 1 dabled ddwywaith y dydd. d. Roedd system ar waith ar gyfer archebu a chael cyffuriau, ond nid oedd y ffurflenni ar gyfer mis Chwefror yn rhestru'r cyffuriau a gafwyd. dd. Roedd presgripsiwn ar gael ar gyfer claf F, a oedd yn rhestru meddyginiaeth, ond nid oedd y presgripsiwn wedi'i lofnodi gan y rhagnodwr. Er hynny, roedd y feddyginiaeth wedi'i rhoi.	
Rhaid mynd i'r afael â phob un o'r meysydd a nodir.	
3. Nid oedd y staff yn cael eu goruchwyllo'n gyson. Rhaid i system oruchwyllo gadarn gael ei gweithredu'n llawn ar gyfer pob aelod o staff.	Rheoliad 20 (2) (a)
4. Mae angen i amgylchedd yr ysbyty gael ei ailwampio'n helaeth. <i>Mae gan yr ysbyty gynlluniau i ailwampio'r amgylchedd yn gyfan gwbl.</i>	Rheoliad 26 (2) (a) (b) ac (c)
5. Cafodd cofnodion pedwar o gleifion eu harchwilio, ac nid oeddent yn gyflawn o safbwynt craffu'n feddygol ar y rhesymau dros gadw'r claf dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Rhaid craffu'n feddygol ar y papurau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Iechyd Meddwl.	Rheoliad 19 (1) (a) a (b)
6. Nid oedd gwaith archwilio/craffu meddygol wedi'i gyflawni mewn perthynas â ffurflenni rheolwyr lleyg. Rhaid craffu'n feddygol ar y papurau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Iechyd Meddwl.	Rheoliad 19 (1) (a) a (b)
7. Nid oedd y Clinigwr Cyfrifol wedi llenwi ffurflen H015 yn briodol.	Rheoliad 19 (1) (a) a (b)
8. Nid oedd claf G wedi cael gwybod am benderfyniad y meddyg a benodwyd i roi ail farn. Rhaid rhoi gwybod i'r claf am bob penderfyniad a wneir gan y meddygon a benodwyd i roi ail farn, a rhaid cofnodi'r penderfyniadau hynny.	Rheoliad 15 (1) (a) (b) ac (c)
9. Nid oedd gwaith craffu clinigol wedi'i gyflawni mewn	Rheoliad 19 (1)

perthynas â ffurflen CO2 ar gyfer claf G, o safbwynt asesu galluedd. Rhaid craffu'n feddygol ar ffurflen CO2.	(a) a (b)
10. Rhaid i'r ysbyty adolygu cymysgedd sgiliau'r staff er mwyn sicrhau bod anghenion y cleifion o ran iechyd corfforol yn cael eu diwallu.	Rheoliad 20 (1) (a)

Mae'n ofynnol i chi gyflwyno cynllun gweithredu manwl i AGIC erbyn **25 Ebrill 2014**, sy'n nodi'r camau gweithredu yr ydych yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â phob un o'r problemau uchod. Dylai'r cynllun gweithredu nodi amserlenni a manylion y sawl a fydd yn gyfrifol am bob cam gweithredu. Pan fydd AGIC wedi cytuno bod y cynllun yn briodol, bydd yn ofynnol i chi sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn cael ei darparu bob mis.

Ar ôl cael y llythyr hwn, bydd yn ofynnol i'r Darparwr Cofrestredig roi sylwadau ynghylch cywirdeb ffeithiol y problemau a nodir, ac ar ôl cael eich cynllun gweithredu bydd copi o'r llythyr rheoli hwn a'ch cynllun gweithredu'n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Efallai y byddwn yn cynnal ymweliad pellach i sicrhau eich bod wedi mynd i'r afael yn briodol â'r problemau uchod, a byddwn yn cynnal ymweliadau'n amlach os byddwn yn pryderu nad yw'r camau gweithredu angenrheidiol yn cael eu cymryd yn brydlon.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffech chi drafod cynnwys y llythyr hwn.

Mae copi o'r llythyr yn cael ei anfon at Mr Sean Holcroft, Rheolwr Cofrestredig Ysbyty Dewi Sant.

Yr eiddoch yn gywir



Mr John Powell
Pennaeth Rheoleiddio

cc – Mr Sean Holcroft, Ysbyty Annibynnol Dewi Sant, Carrog, Corwen, LL21 9BG